COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O'R SIROEDD CADWEDIG YNG NGHYMRU

NODYN ARWEINIAD

2002

CYNNWYS

1. Cyflwyniad

2. Cyfarwyddiadau i'r Comiswn

3. Siroedd Cadwedig

4. Gweithdrefn

5. Defnyddio'r Iaith Gymraeg

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif Ffôn: (029) 20395031
Rhif Ffacs: (029) 20395250
E-bost: lgbc@lgbc-wales.gov.uk
Gwefan: www.cflll-cymru.gov.uk

1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ym 1974 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Ei rôl yw cynnal arolygon parhaus o bob ardal llywodraeth leol yng Nghymru, a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd, a gwneud cynigion i Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn hyn) sy'n ymddangos yn ddymunol iddynt er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

1.2 Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf) system dwy haen o lywodraeth leol yng Nghymru. Diddymodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 y cynghorau sir a dosbarth a sefydlwyd o dan Ddeddf 1972 gan eu disodli â 22 o awdurdodau unedol newydd. Daeth y strwythur newydd i rym o 1 Ebrill 1996. O 1 Gorffennaf 1999 trosglwyddwyd swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru (mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.3 O dan Adran 56(1)(c) o'r Ddeddf, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o unrhyw un neu fwy o'r siroedd a gedwir neu rannau o siroedd o'r fath. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd lunio rheoliadau i bennu'r weithdrefn a ddefnyddir gan y Comisiwn i gynnal arolygon (Adran 60(6)). O ganlyniad i arolwg o'r fath, gall y Comisiwn yn unol ag Adran 54 (1A) o Ddeddf 1972 wneud cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau yn ardal sir a gedwir sy'n ymddangos yn ddymunol i'r Comisiwn, o ystyried, yn benodol, dibenion cadw siroedd a gedwir.

1.4 Ar 11 Mawrth 2002, rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r wyth siroedd cadwedig yng Nghymru. Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu cwmpas yr arolwg ac yn egluro'r gweithdrefnau y bydd y Comisiwn yn eu dilyn.

2. CYFARWYDDIADAU I'R COMISIWN

2.1 Ceir copi o'r cyfarwyddiadau a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Atodiad 1.

3. SIROEDD CADWEDIG

3.1 Diffinnir 'sir gadwedig' gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 fel a ganlyn:

ystyr "sir gadwedig" yw unrhyw sir a grëir gan y Ddeddf hon fel sir yng Nghymru, fel y safodd yn union cyn i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 gael ei phasio ond yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1994, neu unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan y Ddeddf hon, gan ail-lunio ei ffiniau.

3.2 Ceir manylion am yr ardaloedd a gwmpesir gan y siroedd a gedwir yn Atodiad 2 a cheir map o Gymru yn dangos y siroedd cadwedig yn Atodiad 4.

3.3 Cadwyd y "siroedd cadwedig" gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 er mwyn diffinio ardaloedd sirol at ddibenion rhai darpariaethau statudol penodol a restrir yn Atodlen 2 Deddf 1994. Canfuwyd y darpariaethau perthnasol yn y statudau canlynol:

Deddf Is-Gapteiniaid 1997;
Deddf y Siryfion 1887;
Deddf Amddiffyn 1842;
Deddf Trwyddedu 1964;
Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967;
Deddf Dehongli 1978;
Deddf Ynadon Heddwch 1979;
Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980;
Deddf Cynrychioli'r Bobl 1973;
Deddf Etholaethau Seneddol 1986; yn ogystal â
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Ceir disgrifiad pellach o ddarpariaethau perthnasol y Deddfau hyn ar ffurf crynodeb yn Atodiad 3.

4. GWEITHDREFN

4.1 Noda Adran 60 y Ddeddf y gweithdrefnau i'w mabwysiadu gan y Comisiwn wrth gynnal arolygon. Ceir crynodeb o'r gweithdrefnau isod:

i) bydd y Comisiwn yn rhoi rhybudd o'u bwriad i gynnal arolwg ac yn ymgynghori â phob person sydd â diddordeb, gan gynnwys yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu perthnasol, cyrff cyhoeddus eraill a'r cyhoedd, gyda'r bwriad y byddant yn gwneud cynrychioliadau. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn roi cyhoeddusrwydd i unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er mwyn cydymffurfio â'r rhan hon o'r Ddeddf, mae'r Comisiwn, yn ogystal ag ysgrifennu at y cyrff a grybwyllir uchod, yn gosod hysbysebion yng ngholofnau Hysbysiadau Cyhoeddus papurau newydd lleol yn cyhoeddi dechrau'r arolwg. Rhoddir copïau o'r hysbysiadau hyn i'r awdurdodau lleol a gofynnir iddynt eu gosod mewn mannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd, neuaddau cymunedol ac ati er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i ddechrau'r arolwg ac i'w dynnu at sylw'r trigolion. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi dechrau arolwg ar wefan y Comisiwn yn www.lgbc-wales.gov.uk;

ii) bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl wybodaeth a'r cynigion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol hwn ac yn cyhoeddi eu cynigion drafft, ac yn gwahodd sylwadau ar eu hargymhellion. Caniateir cyfnod rhesymol ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cynigion drafft neu ar gyfer cyflwyno cynigion amgen;

iii) anfonir copi o'u hadroddiad ar y cynigion drafft at bob un o'r rheini a dderbyniodd gopi o'r llythyr yn eu hysbysu am ddechrau'r arolwg, ac at y rheini a wnaeth gynrychioliadau cychwynnol. Cyhoeddir argaeledd cynigion drafft y Comisiwn yn y wasg leol a gofynnir i'r awdurdodau lleol osod copïau ar gadw i'w harchwilio gan y cyhoedd. Cyhoeddir copi o'r adroddiad ar y cynigion drafft hefyd ar wefan y Comisiwn;

iv) mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Comisiwn deimlo ei bod yn briodol cynnal cyfarfod cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus anffurfiol i drafod eu cynigion drafft, ond ni wneir hyn fel mater o reol. Gall y Comisiwn hefyd ei gwneud yn ofynnol cynnal ymchwiliad lleol mewn perthynas â'r arolwg;

v) bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl wybodaeth a'r cynrychioliadau a wneir mewn ymateb i'w cynigion drafft cyn cyhoeddi eu cynigion terfynol. Fel o'r blaen, gofynnir i'r awdurdod lleol osod copïau ar gadw i'r cyhoedd eu harchwilio, a gosodir hysbysebion mewn papurau newydd lleol. Anfonir copïau at yr ymgynghoreion a'r ymatebwyr ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Comisiwn; ac

vi) anfonir cynigion terfynol y Comisiwn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a all wneud gorchymyn, o dan Adran 58 y Ddeddf, yn gweithredu cynigion y Comisiwn naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau. Bydd cyfnod o chwe wythnos o leiaf lle y gellir cyflwyno cynrychioliadau ar gynigion terfynol y Comisiwn yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5. DEFNYDDIO'R IAITH GYMRAEG

5.1 Wrth gynnal eu harolygon bydd y Comisiwn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Gorffennaf 1998. Gellir cael copïau o'r cynllun o swyddfeydd y Comisiwn neu gellir ei weld ar wefan y Comisiwn yn www.lgbc-wales.gov.uk.

5.2 Mae'n ofynnol yn ôl Deddf 1972 i o leiaf un aelod o'r Comisiwn allu siarad Cymraeg.

Atodiad 1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

ADOLYGIAD O FFINIAU SIROEDD CADWEDIG

CYFARWYDDYD I GOMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn –

   ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

   ystyr "y Comisiwn" yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;

   ystyr "y Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

   ystyr "sir gadwedig" yw'r ystyr a roddir i "preserved county" yn adran 270(1) o'r Ddeddf.

2. Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) mae'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 54 a 56 o'r Ddeddf bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad cyn belled â'u bod yn arferadwy yng Nghymru.

3. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf mae'r Cynulliad yn cyfarwyddo'r Comisiwn I gynnal adolygiad o'r ffiniau o'r siroedd cadwedig hynny yng Nghymru sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen gysylltiedig.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

11 Mawrth 2002

ATODLEN

Y SIROEDD CADWEDIG A'U HARDALOEDD

Clwyd	Sir Clwyd ac eithrio cymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn
Dyfed	Sir Dyfed
Gwent	Sir Gwent
Gwynedd	Sir Gwynedd
Morgannwg Ganol	Sir Morgannwg Ganol ac eithrio cymunedau Y Wîg, Saint-y-brid, Ewenni a Phen-tyrch
Powys	Sir Powys gan ychwanegu Chymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn o sir Clwyd
De Morgannwg	Sir De Morgannwg gan ychwanegu chymunedau'r Wîg, Saint-y-brid, Ewenni a Phen-tyrch o sir Morgannwg Ganol
Gorllewin Morgannwg	Sir Gorllewin Morgannwg

Atodiad 2

Y Siroedd a Gedwir a'u Hardaloedd

Diffiniodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ardaloedd y siroedd a gedwir fel a ganlyn:

Enw	Ardal
Clwyd	Sir Clwyd ond heb gynnwys Cymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn.
Dyfed	Sir Dyfed.
Gwent	Sir Gwent.
Gwynedd	Sir Gwynedd.
Mid Glamorgan* Morgannwg Ganol	Sir Morgannwg Ganol ond heb gynnwys cymunedau'r Wîg, Saint-y-brid, Ewenni a Phentyrch.
Powys	Sir Powys yn ogystal â chymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn o sir Clwyd.
South Glamorgan* De Morgannwg	Sir De Morgannwg yn ogystal â chymunedau'r Wîg, Saint-y-brid, Ewenni a Phentyrch o sir Morgannwg Ganol.
West Glamorgan Gorllewin Morgannwg.	Sir Gorllewin Morgannwg.

* Diwygiwyd y ffin rhwng siroedd a gedwir Morgannwg Ganol a De Morgannwg gan Orchymyn (Ardaloedd) Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg 1996.

Atodiad 3

DARPARIAETHAU SY'N BERTHNASOL I SIROEDD A GEDWIR

1. Deddf Is-Gapteiniaid 1997

Penodir Arglwydd-Is-Gapten gan y Goron ar gyfer pob sir yng Nghymru, pob sir yn Lloegr, a phob ardal yn yr Alban. At ddibenion Deddf 1997 ystyrir y siroedd yng Nghymru fel y siroedd a gedwir. Mae'r Arglwydd-Is-Gapten yn gweithredu fel cynrychiolydd y Frenhines sy'n rheoli materion dinesig y Frenhines ac yn trefnu ymweliadau brenhinol.

2. Deddf y Siryfion 1887

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer penodi Siryfion (a'u hadwaenir wrth gael eu penodi ar gyfer sir fel Uwch Siryfion) i gyflawni rhai swyddogaethau sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, yn ogystal â swyddogaethau seremonïol. At ddibenion penodi Siryf yn flynyddol ystyrir y siroedd yng Nghymru fel y siroedd a gedwir.

3. Deddf Amddiffyn 1842

Yn Adran 19 Deddf Amddiffyn 1842 (prisio eiddo lle na cheir cytundeb) ac yn Adrannau 23 a 24, ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir a gedwir.

4. Deddf Trwyddedu 1964

Yn Adran 85 (partïon a drefnir er budd), 188 (cau eiddo trwyddedig lle ceir terfysg) a 193 (datgymhwyso ynadon) Deddf Trwyddedu 1964, ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir a gedwir.

5. Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967

Yn Adran 10 Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 (awdurdodaeth mewn perthynas â physgodfeydd) mewn perthynas â Chymru, mae'r cyfeiriad at sir yn cynnwys cyfeiriad at sir a gedwir.

6. Deddf Dehongli 1978

Yn Atodlen 1 Deddf Dehongli 1978 (diffiniad o eiriau ac ymadroddion), diffinnir "Cymru" fel 'ardal gyfun y siroedd a grëwyd gan Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i gweithredwyd yn wreiddiol, ond yn amodol ar unrhyw newid a wnaed o dan Adran 73 y Ddeddf honno (newid dilynol i ffin yn dilyn newid cwrs dŵr).'

7. Deddf Ynadon Heddwch 1979

Yn Adran 1 Deddf Ynadon Heddwch 1979 (ardaloedd comisiwn), Adran 4 y Ddeddf honno (ardaloedd sesiynau bach) ac Adran 19 y Ddeddf honno (darpariaethau cyffredinol o ran pwyllgorau llysoedd yr ynadon), mae cyfeiriadau at siroedd mewn perthynas â Chymru yn gyfeiriadau at siroedd a gedwir.

8. Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980

Yn Adran 1 (cyhoeddi gwþs i'r sawl a gyhuddwyd neu warant i'w arestio), Adran 2 (awdurdodaeth i ymdrin â chyhuddiadau) ac Adran 3 (troseddau a gyflawnir ar ffiniau ac ati) Deddf Llysoedd yr Ynadon 1980, mae cyfeiriadau at siroedd mewn perthynas â Chymru yn gyfeiriadau at siroedd a gedwir.

9. Deddf Cynrychioli'r Bobl 1973

Yn narpariaethau adran 177 Deddf Cynrychioli'r Bobl 1973 (trosedd etholiad lleol y gellir gosod cosb ddiannod arni), ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir a gedwir. Yn Atodlen 1 y Ddeddf honno (rheolau etholiad seneddol), yn yr Atodiad, yn y rhan sy'n sôn am ffurflen y dystysgrif i'w hardystio ar yr writ, mewn perthynas ag unrhyw etholaeth yng Nghymru mae "sir" yn y ffurflen hon yn cyfeirio at sir a gedwir.

10. Deddf Etholaethau Seneddol 1986

Ym mharagraff 4 is-baragraff (1)(a) Atodlen 2 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddau), ystyr "sir" mewn perthynas â Chymru yw sir a gedwir.

11. Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999)

Mae is-adran (1A) Adran 54 y Ddeddf hon (cynigion ar gyfer newidiadau o fewn ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru) yn datgan "Gall y Comisiwn i Gymru, o ganlyniad i arolwg a gynhaliwyd ganddynt o dan y Rhan hon o'r Ddeddf hon, wneud cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithredu newidiadau yn ardal sir a gedwir yr ymddengys i'r Comisiwn eu bod yn ddymunol o ystyried, yn benodol, y dibenion y cedwir y siroedd a gedwir ar eu cyfer."

Mae Adran 56(1) y Ddeddf hon (pŏer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddyd i gynnal arolygon) yn datgan:

> "(1) Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn i Gymru gynnal arolwg o –
>
> (a) Cymru gyfan,
>
> (b) unrhyw un ardal llywodraeth leol neu fwy neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru, neu
>
> (c) unrhyw un sir a gedwir neu fwy neu rannau o siroedd o'r fath,
>
> at ddiben ystyried p'un a ddylid gwneud cynigion o'r fath mewn perthynas â'r ardal y cynhelir arolwg ohoni fel y'u hawdurdodir gan adran 54 uchod a pha gynigion, os o gwbl, i'w gwneud; a bydd y Comisiwn, os cred bod hynny'n addas, yn llunio cynigion o'r fath yn unol â hynny."

Yn Adran 224 y Ddeddf hon (trefniadau gan brif gynghorau ar gyfer cadw dogfennau) ystyr "sir", mewn perthynas â Chymru, yw sir a gedwir.

Yn Adran 269 y Ddeddf hon (ystyr "Cymru" a "Lloegr"), ystyr "Cymru" yw ardal gyfun y siroedd a gedwir ac nid yw "Lloegr" yn cynnwys unrhyw ardal a gynhwysir o fewn unrhyw un o'r siroedd a gedwir.

SIROEDD CADWEDIG

ac Awdurdodau Unedol



Awdurdodau Unedol

1 Ynys Môn
2 Gwynedd
3 Conwy
4 Sir Ddinbych
5 Sir y Fflint
6 Wrecsam
7 Powys
8 Ceredigion
9 Sir Benfro
10 Sir Gaerfyrddin
11 Abertawe
12 Castell-nedd Port Talbot
13 Pen-y-bont ar Ogwr
14 Rhondda Cynon Taf
15 Merthyr Tudful
16 Bro Morgannwg
17 Caerdydd
18 Caerffili
19 Blaenau Gwent
20 Tor-faen
21 Sir Fynwy
22 Casnewydd

Atgynhyrch o fapiau wrth raddfa yr Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron Comiswn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, GD27221